CELF A DYLUNIO

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Celf a Dylunio y gallu i…

- Ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn fframweithiau cyd-destunol amrywiol.
- Cynhyrchu syniadau, cysyniadau, cynigion, atebion neu ddadleuon yn annibynnol ac ar y cyd wrth ymateb i friff penodol a gwaith a ddechreuwyd ganddynt.
- Meddwl yn gydgyfeiriol a dargyfeiriol wrth arsylwi, ymchwilio, holi, delweddu, a chynhyrchu, ac i ddatblygu syniadau hyd at greu'r deunydd terfynol.
- Rheoli'r cysylltiad rhwng bwriad, prosesu, canlyniadau, cyd-destun a lledaenu.
- Bod yn ddyfeisgar ac entrepreneuraidd yn eich gwaith eich hun ac wrth ystyried gwaith pobl eraill.
- Defnyddio deunyddiau, y cyfryngau, technegau, dulliau, technolegau ac offer gyda dawn a dychymyg wrth arsylwi ar arferion gwaith da.
- Astudio yn annibynnol, gosod amcanion, rheoli eich llwyth gwaith eich hun a gweithio o fewn terfynau amser.
- Rhagweld a chynnwys newid, ymdrin ag amwysedd, ansicrwydd, a'r anghyffredin.
- Dadansoddi gwybodaeth a phrofiadau, datgan barn annibynnol, cyflwyno dadleuon rhesymedig drwy fyfyrio, adolygu a gwerthuso.
- Nodi cryfderau ac anghenion personol.
- Rhyngweithio'n effeithiol gyda phobl eraill drwy gydweithio, ymdrechu ar y cyd a thrafodaeth.
- Mynegi syniadau a gwybodaeth yn ddealladwy ac yn weledol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Cyflwyno syniadau a gweithiau i gynulleidfaoedd mewn amryw o sefyllfaoedd.
- Nodi ffynhonnell, llywio, dewis, adalw, gwerthuso, trin a rheoli gwybodaeth.
- Dewis a defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu.

Trosolwg o Gelf a Dylunio

Mae Celf a Dylunio'n ymwneud â llunio, cynhyrchu, hybu a lledaenu canlyniadau'r deunyddiau sy'n ffurfio ein diwylliant gweledol. Mae'r rhain yn cynnwys arteffactau er mwyn myfyrio'n ddeallusol ac esthetig i greu cynhyrchion gweithredol, systemau a gwasanaethau gweithredol. O'r cam cychwynnol i'r cam lledaenu, bydd prosesau yn cael eu cyfuno â sgiliau creadigol, dychymyg, gweledigaeth ac ar y lefelau uchaf o gyflawniad, arloesedd. Mae un grwp o ddisgyblaethau sef crefftau, celf gymhwysol, celf addurnol neu gynllunwyr/gwneuthurwyr yn cynnwys cerameg, gwydr, gemwaith, gwaith metel, dodrefn a thecstilau. Mae grwp arall yn cynnwys ffotograffiaeth, ffilm, cynhyrchu yn y cyfryngau, darlunio ac animeiddio.

Mae graddedigion mewn sefyllfa dda i fod yn effeithiol ym mhob sector o gymdeithas sy'n seiliedig ar wybodaeth yn eu gallu i fod yn greadigol trwy ddysgu. Mae graddedigion yn cael swyddi yn y cyfryngau, ym maes marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, gweinyddiaeth celf neu addysg celf. Mae swyddi penodol yn cynnwys cyfarwyddwr celf hysbysebu, gweinyddwr yn y celfyddydau, therapydd celf, cynllunydd arddangosfa, cynllunydd ffasiwn, cynllunydd graffeg, curadur, athro, cynllunydd tecstilau, marchnatwr gweledol.

Ffynhonnell: CIHE 2006